

CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYNGOR 3 GORFFENNAF 2018

Presennol

Ei Theilyngdod Y Maer – Cynghorydd E R Hughes

Cynghorwyr

W T Owen, I C Thomas, B Owen , W L Davies, W R Owen, E Lovgreen, A Hopcyn, M Sarnacki, S Sage, C Williams, C Larsen , R Thomas, J W Parry, D L Jones

**Siaradwyr Gwadd : Emlyn Jones Uwch Reolwr YGC
a Rob Williams**

Croesawyd gan y Maer

Eglurodd mai dim ond 35% or gwaith sydd i Cyngor Gwynedd

Wrthi yn paratoi pecyn hyfforddi i Gynghorwyr

Dwr llifogydd ac adeiladau ydi'r ddau brif faes gwaith

Problemau hanesyddol ydi peipiau rhy fach, ffoesydd. Yn hytrach na canolbwyntio ar y peipiau angen edrych ar yr ochr arall ir broblem i weld os oes modd newid y llif

Dros 500 o lifogydd i dai sydd yn derbyn blaenoriaeth i rhai mewn gerddi ag ati

Gofynnwyd nifer o gwestiynau am sut ellir y cyngor helpu . Roedd Mr Emlyn Jones am greu rhestr o ffyrdd sut ellith Cynghorwyr helpu wrth fynd o amgylch ei wardiau yn ogystal o gofyn nifer o gwestiynau ir cynghorywr fydd yn help lleol ac yn help ar gyfer yr hyfforddiant

1. Ymddiheuriadau

Cyng K Jones , Cyng K Richards

2. Cyhoeddiadau'r Maer

6.6.2018	Cyfarfod gyda Esgob Bangor
9.6.2018	Ras y Cestyll
9.6.2018	Carnifal
13.6.2018	Cyfarfod a'r Chelsea Pensioners yn y Castell
14.6.2018	Seremoni gwobrwyo Coleg Glynllifon Y Dirprwy Faer yn cynrychioli'r Maer
14.6.2018	Cofio Grenfell Tower
15.6.2018	Castell -arddangosfa
17.6.2018	Sul y Maer Dinbych
23.6.2018	Paned a Cacen yn y clwb rygbi- tuag at Addison Disease
23.6.2018	Twrnament Peldroed
23.6.2018	Diwrnod agored Plasdy Glynllifon
24.6.2018	Sul y Maer
24.6.2018	Sioe Geir/'Vehicle Show' Cei Llechi

Safodd pawb am funud fel arwydd o barch i nodi marwolaeth cyn Cynghorydd Glyn Thomas a nodwyd bod y teulu wedi bod mewn cysylltiad yn diolch i bawb am eu cefnogaeth

3. Datgan Buddiant Personol

Eitem Rhif 8 – E Lovgreen

Eitem Rhif 8 – I C Thomas

W T Owen a E R Hughes, os fydd trafodaeth ar cofnodion Cyllid

4. Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Adroddiad Trefi Caerog

5. Cofnodion

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

- i. Cyngor 5 Mehefin 2018
- ii. Panel Cyllid 26 Mehefin 2018
- iii. Pwyllgor Personél 26 Mehefin 2018
- iv. Pwyllgor Gwaith 28 Mehefin 2018

Penderfynwyd

- i. Derbyn fel rhai cywir (14 o blaid , 1 ymatal)
- ii. Derbyn yr argymhellion au mabwysiadu gan mynd am yr opsiwn or ddwy goeden am 3 mlynedd (unfrydol)
Cafwyd trafodaeth ychwanegol am roi goleuadau sydd yn newid lliw ar y goeden tu allan i Gisda ond fethodd y bleidlais (9 yn gwrthod a 5 ymatal). Angen ail drafod yr elfen gwres ym Mis Medi ar ôl cael prisiau am foiler newydd (unfrydol)
Ceisiadau ariannol (unfrydol)
- iii. Derbyn au mabwysiadu (unfrydol)
- iv. Derbyn au mabwysiadu (unfrydol)

6. Cyfrifon

I gymeradwyo y biliau rhoddion a chyflogau i'w talu

Penderfynwyd

Derbyn au talu (unfrydol)

7.Cysoni Cyfrifon

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

8. E-bost Cynor Gwynedd

Parthed: Adeilad Pendeitsh

Penderfynwyd

Holi Hwb i weld beth yw ei diddordeb nhw yn yr adeilad gan bod hi yn bwysig ceisio cadw elfen or gwasanaeth yno (unfrydol)

9. SLCC

Cynhadledd Llandudno

Penderfynwyd

Y clerch i fynychu (unfrydol)

10. Rhybudd o Gynnig Cynghorydd Maria Sarnacki

Penderfynwyd

Cefnogi'r rhybudd ac ysgrifennu at yr Heddlu i weld pa waith mae nhw yn neud ar y pwnc yn barod, a gofyn os oes modd symud un o'r ddau kiosk ac yna fydda modd rhoi yr hysbysebion ar y cefn er mwyn gallu gweld mewn a tynnu'r silffoedd . Gofyn am restr mwya diweddar o rhifau'r PCSO's i bob cynghorydd gan eu bod yn newid mor aml (unfrydol)

Gadawodd W R Owen a J W Parry am 7.18

A gadawodd W L Davies , A Hopcyn a B Owen am 7.21

11. Rheolau Sefydlog Newydd

Eglurodd y clerch y diwrnod ar ôl iddi ddiweddarau y rhai ar ôl cyfarfod blaenorol y Cyngor bod set newydd wedi cyrraedd oedd yn cynnwys adrannu newydd parthed GDPR

Penderfynwyd

I bawb edrych arnynt dros yr Haf ac ail basio nhw Mis Medi (unfrydol)

12. National Grid

Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

13.E-bost o Seland Newydd

Parthed Lluniau Caernarfon

Cost fydda £327.50 yr un

Penderfynwyd

Awgrymu iddo gysylltu a Galeri sydd yn chwilio am rhywun i arddangos yno gan nad oes gan y Cyngor ddigon o le iw arddangos (unfrydol)

14. Adroddiad Clwb Ieuentid

Penderfynwyd

Cefnogi awgrymiadau'r pwyllgor gan sicrhau bod y sefyllfa yn cael ei adolygu hanner ffordd trwy'r cynllun (unfrydol)

15. Cwestiynau

Oes na ddiweddariad ar y siop ? 1 dal efo diddordeb

16. Trefi Caerog

Niferoedd wedi newid bellach a dim ond 2 o bob Cyngor fydd yn medru mynd bellach ac fydd costau o oddeutu £235

Grant wedi ei sicrhau fydd yn gobeithio lleihau'r gost ond angen rhywun i arwain ar y trefniadau.

Penderfynwyd

Cynnig gwasanaeth i'r clerc drefnu ond i'r Cyngor dderbyn £200 gan y Trefi Caerog am ei gwaith

Gorffenodd y cyfarfod am 19.45

Arwyddwyd Dyddiad